

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 14eg Medi, 2020, drwy gyfrwng 'zoom' o 7.30 p.m. hyd 8.20 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Elin Hughes (Cadeiryddes)

Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams

Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Ifor Owen

26. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Gadeiryddes yr aelodau i'r cyfarfod.

27. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol.

28. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 10fed Awst, 2020. Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Michael Strain.

MATERION YN CODI –**(1) Eitem 22 – Materion Ffyrdd a Llwybrau (tudalen 2)****(a) Gor-yrru ym mhentref Botwnnog**

Adroddwyd fod yr Adran Draffig wedi addo dod yn ôl at y Cynghorydd Gareth Williams ar ddiwedd mis Medi gyda phris am roddi 'speed bumps' drwy'r pentref ond yn anffodus nid oes cyllid ar gael ar gyfer y gwaith ar hyn o bryd.

(b) Gor-yrru ym Mhenygroeslon

Yn dilyn cysylltu â PCSO Steven M. Regan, deallwyd ei fod mewn cysylltiad â 'Go Safe' a chael ar ddeall fod Penygroeslon yn un o'r safleoedd wedi eu dynodi i'r fan fod yno ond ar hyn o bryd 'roedd cymhlethdod cyfreithiol yn bodoli ond fod hyn yn cael ei drafod ar hyn o bryd.

(2) Eitem 24 – Hyfforddiant gan Un Llais Cymru (tudalen 2)

Awdurdodwyd i'r Clarc ac unrhyw aelod arall o'r Cyngor gael hyfforddiant gan Un Llais Cymru.

29. CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

- (a) Cais C20/0666/32/LL – codi adeilad cynhyrchu wyau maes gan gynnwys seiloau a gwaith cysylltiedig yng Nghrugern, Sarn Mellteyrn.
- (b) Cais C20/0698/32/DT – creu mynedfa gerbydol newydd i'r briffordd yn Efail Glandwr, Sarn Mellteyrn.

Penderfynwyd cefnogi'r ddau gais o nodir uchod.

(Nodyn – adroddodd Y Cyngorydd Gareth Williams, yr aelod lleol ar Gyngor Gwynedd, nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd wedi cyflwyno sylwadau iddo ynglyn a chais (a) uchod.

30. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

Adroddodd Y Cyngorydd Gareth Williams i lori enfawr fynd i drafferthion ar bont Cellar, Botwnnog, a hynny oherwydd i'r teclyn 'SATNAV' gyfarwyddo'r gyrrwr i fynd i lawr y ffordd honno o Benrhos, Botwnnog. Gofynnai'r Cyngorydd am gefnogaeth y Cyngor i ofyn i Gyngor Gwynedd osod arwyddion bob pen i'r ffordd yn rhybuddio gyrrwyr nad oedd yn addas i gerbydau trymion.

Gofynnodd Y Cyngorydd Gwenan Griffith drwy e-bost am i'r Cyngor ystyried gofyn i Gyngor Gwynedd am gael rhoddi arwydd 'Give Way to oncoming traffic' neu system unffordd dros bont Saithbont, Botwnnog.

Tynnwyd sylw fod Llwybr Bach, Botwnnog angen ei farbio.

Penderfynwyd

- (i) Anfon y ddau fater ym mharagraff un a dau uchod at yr Adran Priffyrdd yng Nghyngor Gwynedd.
- (ii) Gofyn i Mr. J.A. Pozzi farbio Llwybr Bach, Botwnnog.

31. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

32. **CANLLAWIAU I GYNGHORAU AR GYNNAL CYFARFODYDD YN GORFFOROL**

Cyflwynwyd canllawiau gan Un Llais Cymru – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen.

Trafodwyd y mater a nodwyd mai'r unig aelod nad oedd yn gallu dod i fewn ar y cyfarfodydd fideo gynhadledda oedd Y Cyngorydd Ifor Owen a gofynnwyd i'r Clarc gael gair a'r aelod fel y gall ystyried defnyddio ei ffôn symudol i gysylltu a chymryd rhan yn y trafodaethau.

Ar hyn o bryd nid oedd y Cyngor yn hapus i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb a phenderfynwyd glynnu at y dull o ddefnyddio 'Zoom.'

Yn dilyn trafferthion yn y cyfarfod ym mis Awst cynigiodd Y Cyngorydd Michael Strain i'r Cyngor gael defnyddio eu technoleg hwy i gynnal eu cyfarfodydd. Diolchwyd yn gynnes iawn i'r Cyngorydd Strain a derbyniwyd y cynnig.

Penderfynwyd nodi'r uchod a glynnu at gynnal cyfarfodydd ar hyn o bryd drwy 'Zoom' ond fod y sefyllfa i'w hadolygu'n rheolaidd.

33. **O DDRWS I DDRWS**

Cyflwynwyd cais ariannol gan O Ddrws i Ddrws – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen.

Penderfynwyd cyfrannu £100. (siec 200707)

34. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

Y Clarc	£372.55 (siec 200705)
HMRC	£ 93.20 (siec 200706)

ni Nodyn – tra bu'r Cyngor yn trafod cyflog y Clarc rhoddwyd hi yn yr 'ystafell aros' ac chymerodd ran yn y drafodaeth.

Yn y cyswllt hwn gofynnodd y Clarc am hawl i'r Cynghorydd Ifor Owen a Glenys Williams arwyddo deg siec ychwanegol gan nad oedd cyfarfod wyneb yn wyneb yn cymryd lle ar hyn o bryd.

Penderfynwyd awdurdodi'r ddau aelod arwyddo deg siec i'r Clarc (sieciau 200705 – 200714 (tair o'r sieciau yma yn cynnwys £100 O Ddrws i Ddrws, £372.55 i'r Clarc a £93.20 i HMRC).

35. **LLYWODRAETHWYR YSGOL PONT-Y-GOF, BOTWNNOG**

Adroddodd Y Cynghorydd Carys H. Evans, cynrychiolydd presennol ar Lywodraethwyr Ysgol Pont-y-Gof, Botwnnog, fod ei thymor yn dod i ben ym mis Medi eleni a chan ei bod wedi gweithredu am chwe blynedd ei bod yn dymuno ymddiswyddo y tro hwn. Dywedodd y byddai llythyr yn dod o'r Adran Addysg maes o law i ofyn am yr enwebiad.

Penderfynwyd gohirio enwebu hyd gyfarfod mis Hydref.

36. **PLANNU BYLBIAU**

Adroddodd Y Cynghorydd Gareth Williams iddo gael gair â Llifon Jones, Garddwr Plas yn Rhiw ynglyn a faint o fylbiau fyddai ei angen o dyweder Crugeran i lawr i bentref Sarn Mellteyrn. Yn ôl Llifon Jones byddai angen nifer o sachiadau o fylbiau a byddai'r gôst oddeutu £40 y sach (oddeutu £600).

Gofynnwyd y cwestiwn a ddylid plannu bylbiau yn y tri pentref ac awgrymwyd o gwmpas arwydd Eglwys Santes Mair ym Mhedair Croeslon, o gwmpas y fainc ym Mryncroes, o gwmpas arwyddion ym mhentrefi Botwnnog a Sarn Mellteyrn.

Dywedodd Y Cynghorydd Gareth Williams ei fod yn barod i ymgymryd a gwneud y cais i AHNE tuag at gôst y bylbiau ac awgrymwyd gofyn i Glwb Ffermwyr Ifanc Rhiw wneud y gwaith yn ystod hanner tymor yr Hydref.

Penderfynwyd trafod hyn yng nghyfarfod mis Hydref pryd y bydd y sefyllfa yn gliriach.

